

YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE CHURCH IN WALES

# FFRINDIAU'R BYD SESIWN 2

## Straeon Y Creu

**Ffocws y dysgu (Gwella Adran 50)**

- I ddatblygu cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrio ar gred, gwerthoedd a phrofiadau dynol dwys ac ymateb iddynt o safbwyntiau ffydd amrywiol, yn cynnwys cyd-destun y gymuned a'r Gymru gyfoes.
- I ddatblygu cyfleoedd i ddysgwyr ddeall a pharchu gwahaniaeth ac amrywiaeth yng nghymuned yr ysgol, mewn cymunedau ffydd lleol, cenedlaethol a byd-eang.

**YMGYSYLLTU**

Beth ydi stori CREU? Meddyliwch, trafodwch, rhannwch. Allwn ni feddwl am esiamplau?
Gallwch ddarparu straeon i'r disgyblion neu gofyn iddynt wneud gwaith ymchwil personol. Gall rhai esiamplau fod yn:

**Yin a Yang**
Cred traddodiadol Tsieiniaid o'r yin a yang, y tywyllwch a'r goleuni, y pwêr creadigol sydd yn cynnal bywyd a bodolaeth. Gwelwyd y yin a yang fel y grymoedd naturiol mewn natur.

**Straeon breuddwydiol yr Aborigini**
Gall y straeon yma amrywio rhwng gwahanol grwpiau cynfrodorol. Straeon i esbonio bywyd, y creu, y bydysawd, y sêr. Cyfuniad o ddigwyddiadau o'r gorfennol, beth sy'n mynd ymlaen yn y presennol a beth allai ddigwydd yn y dyfodol. Maent hefyd yn cynnwys dysgeidiaeth ar foesau a chredoau.

**Straeon creu Hindwaidd**
Mae amryw o straeon creu Hindwaidd. Dwed un am greu y bydysawd o'r swn Aum, ac un arall am y creu fel torri wy.

**Gall pob grwp wneud bwrdd stori syml i'w hadrodd yn ôl i weddill y dosbarth.**
Beth sydd yn debyg ac yn wahanol rhwng y straeon creu?
Gwnewch restr o'r negeseuon sy'n dod o'r straeon. Efallai bod cyswllt rhyngddynt? Oes themau tebyg? Beth mae hyn yn dweud wrthym am sut mae gwahanol grefyddau yn ein annog i fyw ein bywydau?
Mae gofalu am y greadigaeth yn rhoi ymdeimlad o ogoniant Duw-Shekhinah. Profir hyn trwy astudio'r ysgrythyrau, addoli a gweddio.

**Myfyrio**

Ydy'r negeseuon o'r straeon creu yn cael effaith ar y ffordd rydym yn byw ein bywydau heddiw?

Os ddim, pam ddim?

Sut gall ffydd neu gred effeithio ar ein gweithredoedd? Allwch chi feddwl am esiampl? Allwn ni ddefnyddio'r negeseuon yma i ysgrifennu gweddi am ddyfodol ein byd?

**Adnoddau ychwanegol/gwefannau**

Mae gan gwefan TES syniadau a gwersi wedi eu ysgrifennu gan athrawon, amryw ohonynt yn rhad ac am ddim i'w llawrlwytho fel:

Creation Stories from around the world/Teaching Resources (tes.com)

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES